

Cofnodion / Minutes

Nid yw hi'n bosib cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn bersonol
ar nos Fawrth, 26ain Mai 2020 oherwydd y Covid-19.
Felly, penderfynwyd i gynnal cyfarfod ar-lein yn lle.

*It is not possible to hold a full meeting of the Council in person on
Tuesday 26th May 2020 because of the Covid-19.
Therefore, it was decided to hold an online meeting instead.*

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Cyngorydd Mr
Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mr Arwyn Jones **AJ**, Cyngorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM)
DR, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Steven A. Jones **SAJ**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**, Mr
Cenwyn Williams **CW**.

Yn absennol / Absent: Mr Mark E. Evans **MEE**, Mr Chris Davies **CD**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / None

3. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Elect Chairperson and Vice-chairperson

O dan yr amgylchiadau presennol, penderfynodd y clerc ddilyn canllawiau a
dderbyniwyd gan Un Llais Cymru i orhurio ethol cadeirydd ac is-gadeirydd tan
ein bod ni yn cynnal cyfarfod wyneb y wyneb hwyrach ymlaen yn y flwyddyn. /
*Under the current circumstances, the clerk decided to follow guidelines received
from One Voice Wales to delay the election of chair and vice chair until a face to
face meeting later in the year.*

4. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 30/04/2020. / Minutes of last meeting 30/04/2020.

Derbyniwyd y cofnodion 30/04/2020 yn gywir, Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **EWJ**.
The minutes 30/04/2020 were confirmed correct, Proposed by AJ, Seconded by EWJ.

5. Balans ar 01/05/2020. / Balance on 01/05/2020.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/05/2020)	-	£12,717.93
Cynilo "BMM" (ar 22/04/2020)	-	£ 4,880.40

= **£17,598.33**

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 20/05/2020. / Y Ganolfan Bank balance on 20/05/2020.

Cyfrif "Community" (ar 20/05/2020)	-	£ 3,102.43
Cynilo "BMM" (ar 20/05/2020)	-	£ 3,317.21
	=	£ 6,419.64

6. Cyllid / Finance

6.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£528.00 - Snowdonia Fire & Security ar gyfer gwaith atgyweirio yn Y Ganolfan. / *Snowdonia Fire & Security for repair works in Y Ganolfan.*

£995.59 - Zurich Municipal am yswiriant "5 year premium" am asedau y Cyngor a'r yswiriant yr adeilad Y Ganolfan. / *Zurich Municipal for "5 year premium" insurance for the Council's assets and building insurance of Y Ganolfan.*

6.2 Biliau i'w dalu / Bills for payment

£150.00 - Snowdonia Fire & Security ar gyfer gwaith atgyweirio yn Y Ganolfan. / *Snowdonia Fire & Security for repair works in Y Ganolfan.*

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **AJ**. / *Proposed by ST, Seconded by AJ.*

***Gweler 7.0.2 ynglyn a creu is-bwyllgor ar gyfer cyllid. / See 7.0.2 regarding creating a sub-committee for accounts.**

6.3 Taliadau wedi Derbydd / Payments Received

£311.86 - Ad-daliad gan pwyllgor Y Ganolfan am yswiriant yr adeilad. / *Repayment from Y Ganolfan's committee for building insurance.*

7. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

7.0.1 Gerddi Tai Newydd, Brynsiencyn. / Gardens of Tai Newydd, Brynsiencyn.

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

7.0.2 HSBC Safeguarding

Er mwyn cael symud ymlaen gyda'r "Safeguarding" y cyfrif banc, penderfynodd aelodau i greu is-bwyllgor. Roeddent o'r farn nad oedd dau aelod yn ddigon ar gyfer penderfyniad ariannol. Cynigiodd **AJ** i ymuno â'r is-bwyllgor. Bydd angen cwblhau ffurflen mandad banc er mwyn ychwanegu ei enw. Bydd y clerc yn cysylltu gyda'r banc. / *In order to proceed with the "Safeguarding" bank account, members decided to form a sub-committee. They thought two members were not enough to make a financial decision. AJ offered to join the sub-committee. A bank mandate form will need to be completed to add his name. The clerk will contact the bank.*

7.0.3 Peiriannau ail-lenwi poteli dŵr. / *Water refill stations.*

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

7.0.4 Grant i goliau ar gyfer cae peldroed / *Grant for goals in football pitch*

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

7.0.5 Caniatad i godi ffens / *Permission to erect a fence*

Mae'r clerc wedi derbyn llythyr gan berchennog tŷ yn Bryn Eithin yn gofyn am ganiatâd i godi ffens rhwng eu gardd gefn a chae sydd yn eiddo i'r cyngor cymuned. Clerc i ysgrifennu yn ôl gan ddiolch i chi am dynnu sylw ni at yr gordyfiant. Dim yn gallu gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd oherwydd bod yr adar yn nythu. Byddem yn edrych fewn i'r mater hwyrach ymlaen yn y flwyddyn ac yn cyflogi rhywun i dorri'r gordyfiant. Nid oes gan y cynghorwyr wrthwynebiad iddynt godi ffens ar tir eu hunain. / *The clerk has received a letter from the owner of a house in Bryn Eithin asking for permission to erect a fence between their back garden and a field owned by the community council. Clerk to write back thanking them for bringing to our attention of the overgrowth. We cannot do anything right now because the birds are nesting. We would look into the matter later in the year and employ someone to cut the overgrowth. The councillors have no objection to them erecting a fence on their own land.*

8. Cynllunio / Planning

8.1 Ceisiadau / *Applications*

FPL/2020/46 - Glan Rhos, Brynsiencyn, Cais llawn ar gyfer newid y defnydd o Lety Rheolwyr i fod yn Gyfleuster Gofal Ychwanegol yn . Y clerc wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol. / *Full application for the change of use from Managers Accommodation into an Extra Care Facility at. The clerk has received additional information. Dim gwrthwynebiad / No objection*

8.2 Penderfyniadau / *Decisions*

Dim / *None*

9. Gohebiaethau / Correspondence

Rhestrwyd gohebiaeth yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

10. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

10.1 Adroddiad Cynghorydd **EWJ** / *Councillor EWJ Report*

Wedi profi pwysedd dŵr isel yn ei gartref heddiw. Heb dderbyn unrhyw hysbysiad o unrhyw waith a wnaed yn yr ardal. Mae'r clerc wedi gweld fan Dŵr Cymru ymhellach i lawr y lôn yn gynharach y bore yma. / *Has experienced low water pressure at his home today. Has not received any notification of any works carried*

out in the area. The clerk has seen the Welsh Water van further down the road earlier this morning.

10.2 Adroddiad Cynghorydd DR / Councillor DR Report

Bydd y pwyllgor cynllunio yn ail ddechrau cyfarfodydd ym mis Gorffennaf. Mae ymweliadau safle wedi cael eu gohirio ar hyn o bryd oherwydd yr amgylchiadau. Mae gweithwyr ar safleoedd adeiladu yn dechrau dychwelyd yn dŵl yw gwaith ac felly bydd y cynlluniau yn dechrau cael eu gweithredu. / *The planning committee will resume meetings in July. Site visits are currently on hold due to the circumstances. Workers on construction sites are starting to return to work and so the plans will begin to be implemented.*

10.3 AJ - Mae'n ymddangos bod mwy o faw cŵn o amgylch y pentref yn ystod yr wythnosau diwethaf, efallai bod hyn oherwydd bod mwy o berchnogion yn mynd â'u cŵn am dro? / *There seems to be more dog fouling around the village within the last few weeks, maybe this is because more owners are taking their dogs for walks?*

10.4 Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

**11.1 Nos Fawrth, 30/06/2020 am 6.30y.h. yn 'Y Ganolfan'.
*Tuesday Evening, 30/06/2020 at 6.30pm in 'Y Ganolfan'.***

11.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 7.45y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 7.45pm.*

Os yw'r cyfyngiadau o ran Covid-19 yn dal i fod ymlaen yn mis Mehefin 2020, byddwn yn parhau â'r un dull o cyfarfod ar-lein.

If the restrictions with regards to Covid-19 are still in place in June 2020, we shall carry on with the same method of meeting online.